CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL

Adroddiad Blynyddol gan Gynghorydd

Hwn yw'r adroddiad gan y Cynghorydd isod ar ei weithgareddau allweddol yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2014. Darperir yr adroddiad er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid i unrhyw bwrpas arall. Safbwyntiau'r Cynghorydd unigol yw'r rhai a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid ydynt, o angenrheidrwydd, yn adlewyrchu barn Cyngor Sir Ynys Môn.

Cynghorydd: Kenneth Pritchard Hughes **Ward: Talybolion**
Grwp: Annibynnol

Rôl a Chyfrifoldebau
Braint ydi cael bod yn un o dri cynghorwr sydd â chyfrifoldeb i gynrychioli Ward Talybolion, ardal mwyaf ran maint ar yr ynys. Mae y tri ohonom – Llinos Medi, John Griffith, a finnau - yn cydweithio yn dda gyda'n gilydd ac yn mynychu cyfarfodydd y saith Cyngor Cymuned yn ein twrn.

Fel aelod or Pwyllgor Gwaith rwyf yn gyfrifol am yr adran Gwasanaethau Cymdeithasol ac adran Tai y Cyngor. Gydag arian yn prinhau mae yn hynod bwysig fod ni, Cyngor Ynys Mộn yn sicrhau diogelu y rhai mwyaf bregus yn ein cymdeithas.

Rhwng Mai 2013 a Mawrth 2014, eisteddais ar y prif bwyllgorau / is-bwyllgorau canlynol:	*** Ffigyrau Presenoldeb (darparwyd gan CSYM)**
Rhiantu Corfforaethol	3 (100%)
Cyngor	12 (92%)
Pwyllgor Gwaith	12 (100%)
Polisi Cynllunio ar y Cyd	2 (100%)
Trwyddedu	1 (100%)
Cynllunio a Gorchmynion	10 (100%)
* Mae'r ystadegau a ddarperir yn berthnasol yn unig i'r pwyllgorau a restrir yn y tabl hwn. Nid yw'r ystadegau'n cynnwys presenoldeb mewn cyfarfodydd eraill sy'n ymwneud â gwaith y Cyngor Sir.	

Rwyf yn aelod o Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn (wedi mynychu 4 cyfarfod). Rwyf hefyd yn aelod o Bwyllgor Cyswllt y Sector Gwirfoddol.

Rwyf hefyd yn mynychu cyfarfodydd rhanbarthol yn rheolaidd yn rhinwedd fy swydd fel aelod o'r Pwyllgor Gwaith.

Rwyf yn aelod o'r cyrff allanol canlynol hefyd:
Aelod Arweiniol ar gyfer Diogelu Oedolion
Bwrdd Aelodau Consortiwm Awdurdodau Lleol Cymru (CLAW)
Cymdeithas Tai Eryri
Cymdeithas Tai Gogledd Cymru
Grŵp Cyfeirio Cydranddeiliaid Betsi Cadwaladr
Grŵp Cyswllt Prosiect Niwclear Horizon
Grŵp Rhanddeiliaid y Safle Wylfa
Pwyllgor Cyswllt Sector Wirfoddol
Pwyllgor Rheoli Gofal a Thrwsio Môn

Gweithgareddau yn yr Etholaeth

Yn ogystal â mynychu cyfarfodydd Cynghorau Cymuned, (rwyf yn aelod o Gyngor Cymuned Cylch Y Garn) rwyf yn mynychu cyfarfodydd llywodraethwyr tair Ysgol Gynradd ac un Ysgol Uwchradd yn ward Talybolion ac yn ffodus iawn o gael y fraint o fod yn gadeirydd llywodraethwyr Ysgol Uwchradd Bodedern. Byddaf hefyd yn ceisio mynychu cyfarfodydd neuaddau pentref pan fydd amser yn caniatau. Rhan bwysig o ddylestwydd cynghorwr ydi ceisio datrys problemau i unigolion sydd yn cysylltu â ni am gymorth.

Mentrau a Gweithgareddau Arbennig

Rwyf wedi chwarae fy rhan gydag eraill dros y blynyddoedd diwethaf i ddod o hyd i arian i alluogi sawl prosiect i gael ei wireddu er budd i'r cymdeithasau lleol.

Dysgu a Datblygu

Rwyf wedi mynychu'r mentrau dysgu a datblygu canlynol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf (gwybodaeth wedi'i darparu gan CSYM):	
Cyflwyniad i'r Gwasanaeth Cefnogi Aelodau	Mai 2013
Fframwaith Moesegol	Mai 2013
Iaith Gymraeg/Diogelu Data/Y Wasg a'r Cyfryngau	Mai 2013
Hyfforddiant ar y Gofrestr Diddordebau	Mai 2013
Hyfforddiant i'r Pwyllgor Cynllunio	Mehefin 2013
Asesiad Anghenion Datblygu ar gyfer Aelodau	Mehefin 2013
Cyfarfod Cynllunio Corfforaethol	Mehefin 2013
Gwneud Mwy o Wahaniaeth mewn Sgriwtini	Mehefin 2013
Hyfforddiant i'r Pwyllgor Trwyddedu	Gorffennaf 2013
Sesiwn 3 i'r Pwyllgor Gwaith	Gorffennaf 2013
Sesiwn 4 i'r Pwyllgor Gwaith	Gorffennaf 2013
Sesiwn 5 i'r Pwyllgor Gwaith	Awst 2013
Seminar Cynllunio	Medi 2013
Gwneud I'r Cyfryngau Cymdeithasol weithio i Gynghorwyr	Medi 2013
Sesiwn 6 i'r Pwyllgor Gwaith	Medi 2013
Hyfforddiant Ymwybyddiaeth am Gydraddoldeb	Medi 2013
Hyfforddiant ar Adolygiadau Datblygiad Personol	Hydref 2013
PRINCE 2 – Hyfforddiant ar gyfer Aelodau Byrddau	Rhagfyr 2013
Sesiwn 3 – Pwyllgor Gwaith Cysgodol	Ionawr 2014

Gweithgareddau a Materion Eraill

Wrth edrych yn ôl ar y flwyddyn, mae'n bwysig cydnabod y cyfleoedd I sicrhau gwaith drwy ddatblygu nifer o brosiectau sylweddol. Mae hyn yn bwysig er mwyn dyfodol ein pobl ifanc.

Fel yr Aelod sydd gyda'r portfolio tai ar y Pwyllgor Gwaith ac fel aelod o'r Pwyllgor Cynllunio ar y Cyd gyda Chyngor Gwynedd, bum yn rhoi sylw i anghenion strategol y sir ym maes Tai a datblygiad y Cynllun Datblygu Lleol.

Ar lefel gymunedol ac fel llywodraethwr mewn sawl ysgol yn yr etholaeth, rwyf wedi bod yn gefnogol o'r gwaith o sicrhau fod polisi iaith y Cyngor yn cael ei warchod a'i hyrwyddo.

Y Cynghorydd Kenneth Pritchard Hughes **Ebrill 2014**